

Henaint

Darlleniad: Ioan 21: 15-19

Hollalluog a Thragwyddol Dduw, cydnabyddwn di am ein creu a'n cynnal hyd yn awr. Gwerthfawrogwn, O! Arglwydd, dy allu a'th amddiffyn trosom gydol ein hoes. Sylweddolwn mai dy drugaredd a'th dosturi di sy'n gyfrifol am anadl ein heinioes ni ar y ddaear.

Helpa ni, O! Dad, i gofio beunydd mai 'pererinion' ydym ni yma ac mai 'draw mae'n genedigol wlad.' Cynorthwya ni'n wastadol i gymryd 'un dydd ar y tro' fel rhodd oddi wrthyt ti, ac fel arwydd o'th gariad a'th gonsŷrn tuag atom i gyd.

Planna ynom o'r newydd yr ymdeimlad o'n dibynnu arnat, a thosturia wrthym am inni gredu mwy ynom ein hunain nag ynot ti. Buost yn ein gwyllo a'n gwarchod gydol ein hoes, a chydabyddwn dy fawredd a'th fendithion i ni. Maddau ein ffolineb yn byw bywyd annibynnol gan ein hynysu'n hunain yn aml oddi wrth deulu a châr a chymydog. Agor ein llygaid, O! Dduw, i sylweddoli y daw dydd y bydd yn rhaid i'n hannibyniaeth droi'n ddibynnu ar eraill.

Helpa ni i gredu'n fwy angerddol nag erioed mai ti yw awdur bywyd a chynhaliwr pob peth byw. 'Duw biau edau bywyd, a hawl i fesur ei hyd,' meddai'r gair. Credwn, Arglwydd mai yn dy law di y mae'n hyfory ni ac mai ti yn dy ddoethineb dy hun sy'n trefnu ein dyddiau ar y ddaear. Diolchwn am flynyddoedd ein bywyd, O! Dduw, ac am bawb a phopeth a gyfoethogodd y bywyd hwnnw i bob un ohonom. Fe'n galluogaist ni i fwynhau bywyd trwy roi mesur o iechyd da i ni, yn gorfforol a meddyliol.

Bendigwn di am bawb sy'n fawr eu gofal am eraill yn y byd, yn arbennig y rheiny sy'n agos atom ac yn ein cysuro a'n cynorthwyo'n wastadol. Am y rheiny sy'n tywys ac amddiffyn buddiannau eu cyd-ddynion ar y ddaear, derbyn ein diolch, O!

Arglwydd; am y rheiny sy'n llaw a llygaid i eraill, derbyn ein diolch, O! Arglwydd; am y rheiny sy'n llais ac yn glyw i eraill, derbyn ein diolch O! Arglwydd; am y rheiny sy'n draed ac yn ymgeledd i eraill, derbyn ein diolch, O! Arglwydd.

Gweddiwn yn benodol gyda diolch am dywyswyr a gofalwyr y sawl sy'n teimlo'n ddiymadferth. Helpa ni i werthfawrogi pob ymdrech a wneir i leddfu gofidiau a phrofedigaethau mynd yn hen.

Arglwydd, erglyw ein gweddi dros y rheiny sy'n amddifad o gwmni a chysur yn eu henaint; y sawl sy'n teimlo bod y byd yn mynd heibio iddynt; y sawl sy'n teimlo'n ddigymydog ac yn ddigyfaill. Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi drostynt i gyd. Cofia di, O! Dad y rheiny yr ydym ni wedi'u anghofio, a dyro iddynt ymdeimlad sicr dy fod yn eu hymyl gydol y daith.

Parha i'n tywys, O! Dduw ein Tad, hyd ddiwedd ein taith, pryd bynnag a sut bynnag y daw hynny. Gwna ni i deimlo'n ddiogel yn dy gwmni gan ymddiried ynot yn fwy nag erioed. Ac yn hwyrddydd ein bywyd, Arglwydd, helpa ni i bwysu mwy arnat, gan wybod na fydd dy fraich byth yn torri.

Clyw ni yn dy nefeodd, am ein bod yn gofyn y cyfan hyn yn enw a haeddiant Crist Iesu, ein Harglwydd. Amen.

Eric Williams.